***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 Rhif 621 (Cy.70)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Llywodraethu Corfforaethau Addysg Bellach (Dirymu) (Cymru) 2006

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud - -* | *7 Mawrth 2006* |
| *Yn dod i rym - -* | *6 Ebrill 2006* |

Drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 21(1) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**), mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

### Enwi a Chychwyn

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Llywodraethu Corfforaethau Addysg Bellach (Dirymu) (Cymru) 2006 a deuant i rym ar 6 Ebrill 2006.

### Dirymu

**2.**—(1) Mae'r Rheoliadau a bennir yn Rhan 1 o'r Atodlen i'r Rheoliadau hyn (sy'n ymwneud â chorfforaethau addysg bellach yng Nghymru) drwy hyn wedi'u dirymu.

(2) Mae'r Rheoliadau a bennir yn Rhan 2 o'r Atodlen i'r Rheoliadau hyn wedi'u dirymu mewn perthynas â Chymru.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**)

*D. Elis-Thomas*
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

7 Mawrth 2006

(**1**) 1992 p.13. Diwygiwyd adran 21(1) gan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p.31), Atodlen 30, Paragraff 35 ac Atodlen 31.
(**2**) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (OS 1999/672).
(**3**) 1998 p.38.

YR ATODLEN

Rheoliad 2

# Rhan 1

## Y Rheoliadau a Ddirymwyd

Rheoliadau Coleg Menai (Llywodraethu) 1994 (O.S. 1994/1450)

# Rhan 2

## Y Rheoliadau sy'n cael eu Dirymu mewn perthynas â Chymru

Rheoliadau Addysg (Llywodraethu Corfforaethau Addysg Bellach) (Cyn Golegau Chweched Dosbarth) 1992 (O.S. 1992/1957)

Rheoliadau Addysg (Llywodraethu Corfforaethau Addysg Bellach) (Cyn Golegau Addysg Bellach) 1992 (O.S. 1992/1963)

---

**EXPLANATORY NOTE**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu'r Rheoliadau a restrir yn Rhannau 1 a 2 o'r Atodlen sy'n pennu offerynnau ac erthyglau llywodraethu cychwynnol ar gyfer corfforaethau addysg bellach. Disodlwyd pob un o'r offerynnau a'r erthyglau llywodraethu cychwynnol ar gyfer corfforaethau addysg bellach yng Nghymru gan orchymyn o dan adran 22 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 (fel y'i diwygiwyd gan baragraff 23 o Atodlen 9 i Ddeddf Dysgu a Medrau 2000 (p.21)). O ganlyniad, mae'r Rheoliadau a restrir yn Rhan 1 o'r Atodlen yn peidio â bod yn effeithiol. Dirymwyd y Rheoliadau a restrir yn Rhan 2 o'r Atodlen mewn perthynas â Lloegr gan O.S. 2002/1094 ac maent bellach yn peidio â bod yn effeithiol o ran Cymru.